| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2015** |
| **TEITL** | **Staffio'r Adain Weinyddu o Ionawr 2016** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Argymellion ar gyfer sefydlu tîm i weithredu ar gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantiedig (IPG)** |
| **AWDUR** | **Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo ariannu adnoddau staff ar gyfer cysoni IPG a derbyn strwythur adain weinyddu newydd.** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod 16 Mehefin 2015 adroddwyd i'r Pwyllgor yr angen i Gronfa Bensiwn Gwynedd gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG) aelodau unigol yn erbyn yr hyn a ddelir gan CThEM. Cytunwyd yn y cyfarfod hynny i ariannu £8,300 y flwyddyn am feddalwedd pwrpasol i ddechrau ar y gwaith rhagarweiniol i gymharu ffigyrau'r CThEM a data'r Gronfa

1.2 Mewn ymateb i gais Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (PPLlL) amcangyfrifwyd cost yr ymarferiad fel £200,000 yn seiliedig ar waith ymchwil sylfaenol cronfeydd eraill eisoes wedi cychwyn ar yr ymarferiad, a'r nifer o gofnodion angen eu cysoni gan Wynedd.

## 2. Goblygiadau staffio

2.1 Bydd Rheolwr Pensiynau presennol y Gronfa yn ymddeol ar 31 Rhagfyr 2015, gyda'r gwaith heriol o gysoni IPG a Phrisiant 2016 i'w wynebu. Yn dilyn trafodaeth rhwng y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, cynigodd dychwelyd dau ddiwrnod yr wythnos, am 12 mis, i sefydlu ac arolygu tîm i ymgymryd â chysoni IPG ac i gynnig ei gyngor a phrofiad i'w olynydd ar y prisiant. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cost y swydd hybyg.

2.2 Yn ogystal rhagwelir angen secondio aelod staff profiadol i arwain, ac un staff llawn amser, dros dro ar gytundeb 12 mis yn y lle cyntaf i ddechrau ar y gwaith. Pe gytunir y Pwyllgor cyflwynir adroddiad pellach ar gynnydd y gwaith ar ôl chwe mis gydag argymelliadau pellach ar sut i fynd ymlaen.

2.3 Gan nad yw'r swydd ddisgrifiadau wedi' u cytuno arnynt yn derfynol ar hyn o byd, yn seiliedig ar swydd ddisgrifiadau presennol yr adain credir bydd angen y costau canlynol yn y flwyddyn gyntaf:

| Manylion / teitl y swydd | Graddfa arfaethedig | Cyflog Blynyddol llawn amser | Cyfanswm blynyddol y swyddi |
|---|---|---|---|
| Arolygwr Cysoni IPG ac ymgynghorwr Prisiant (16 awr yr wythnos) | S3 | £27,123 | £11,729 |
| Arweinydd tîm cysoni IPG Ll/A (secondio) | S2 | £24,472 | £24,472 |
| Cymhorthydd cysoni IPG LL/A (recriwtio) | GS5 | £17,372 | £17,372 |
| **CYFANSWM BLYNYDDOL** | | | **£53,573** |

2.5 Rhagwelir i’r dasg gymryd o leiaf dwy flynedd i’w chyflawni, ond gyda rol yr ‘Arolygwr’ yn dod i ben ar ôl 12 mis ar ol sefydlu’r gweithdrefnau a chyflawni gwaith y prisiant .

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i aelodau gymeradwyo gwariant ar gyfer sefydlu tîm i gysoni IPG yn unol pwyntiau 2.1 i 2.5 uchod, ar uchafswm cost o **£53,573** yn y 12 mis cyntaf. Dylid pwysleisio mae ymarferiad unwaith ac am byth fydd hwn a cost blwyddyn gyntaf yr ymarferiad yw hwn.

3.2 I dderbyn adroddiad pellach ar ôl chwe mis ar gynnydd yn y gwaith a’r anghenion adnoddau wrth symud ymlaen i ddarfod y dasg.